**Rhif: WG50875**

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Strategaeth Gwarchod Adar Môr Cymru

Dyddiad cyhoeddi: 2025

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English

OGL © Hawlfraint y Goron xxxx

## Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar gynigion i gyflwyno Strategaeth Gwarchod Adar Môr Cymru.  Hoffem ddiolch i bawb a ymatebodd am rannu eu barn â ni.

## Y Camau i'w Cymryd

Dogfen er gwybodaeth yn unig yw hon.

## Gwybodaeth bellach a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

## Manylion cyswllt

Is-adran y Môr a Bioamrywiaeth
Llywodraeth Cymru
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3UR

E-bost: EcosystemauMorolaBioamrywiaeth@llyw.cymru

## Copïau ychwanegol

Ar ffurf electronig yn unig y caiff y crynodeb hwn o ymatebion a chopïau o holl ddogfennau'r ymgynghoriad eu cyhoeddi a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen at y ddogfen ymgynghori: Strategaeth gwarchod adar môr Cymru | LLYW.CYMRU

## Cyflwyniad

Ar ddiwedd 2024, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar ei chynigion i gyflwyno Strategaeth Gwarchod Adar Môr Cymru (y "Strategaeth"). Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 18 Rhagfyr 2024 a 14 Chwefror 2025. Esboniodd y ddogfen ymgynghori pam yr oeddem yn bwriadu cyflwyno'r Strategaeth, gan fanylu ar ei hamcanion, ei chwmpas a'r broses ar gyfer nodi argymhellion. Roedd y cardiau rhywogaethau adar môr, sy'n elfen bwysig o'r asesiadau bregusrwydd, wedi'u cynnwys gyda'r ymgynghoriad. Cewch ragor o fanylion am y rhain ar wefan Llywodraeth Cymru.

## Trosolwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

Cafwyd cyfanswm o 20 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Yn eu plith mae ymatebion llawn ac ymatebion rhannol (sy'n esbonio pam nad yw rhai cwestiynau wedi'u hateb).

Roedd y ffurflenni ymateb i'r ymgynghoriad ar gael yn y Gymraeg ac yn Saesneg ac roedd unigolion yn cael ymateb yn eu dewis iaith. Rhannwyd yr ymatebion rhwng y ddwy iaith fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Cymraeg | 0 |
| Saesneg | 20 |

Roedd ymatebwyr yn cael ymateb ar dudalen we ymgynghoriad Llywodraeth Cymru neu'n cael lawrlwytho ffurflen ymateb a'i hanfon i fewnflwch electronig pwrpasol. Dangosir y rhaniad yn yr ymatebion isod.

| | |
|---|---|
| Ymatebion ar-lein | 12 |
| Ymatebion a gyflwynwyd drwy e-bost | 8 |

Gweler manylion yr ymatebwyr yn ôl eu math isod:

| Math o sefydliad | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| Aelod o'r cyhoedd (heb fod yn gysylltiedig â grŵp) | 4 |
| Corff Anllywodraethol | 6 |
| Sefydliad arall yn y sector cyhoeddus | 3 |
| Awdurdod Lleol/Grŵp cynrychioliadol Awdurdod Lleol | 2 |
| Ymgynghorwyr | 2 |
| Dienw | 2 |
| Addysg | 1 |

## Ymatebion i'r ymgynghoriad

**Cwestiwn 1. A ydych chi'n cytuno â'r amcanion a nodir yn y Strategaeth?**

| | Ydw | Nac ydw | Dim Ateb |
|---|---|---|---|
| Nifer | 15 | 2 | 3 |
| Canran | 75% | 10% | 15% |

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr (75%) o blaid yr amcanion a nodir yn y Strategaeth. O blith y rhai sydd o blaid, roedd cyfran fawr yn cytuno â phwysigrwydd yr amcanion gyda rhai yn mynd gam ymhellach ac yn galw am gynnwys cynllun gweithredu. Pwysleisiodd ymatebwyr eraill bwysigrwydd sicrhau bod yr amcanion yn seiliedig ar dystiolaeth gref.

Roedd un ymatebydd yn cytuno â'r amcanion ar yr amod bod rhai awgrymiadau yn cael eu hystyried. Er enghraifft, maen nhw'n galw am fecanwaith cyllido "tymor hir" yn un o'r amcanion. Galwodd ymatebydd arall ar amcan 4 i fynd y tu hwnt i nodi argymhellion, gan alw yn lle am "gynllun gweithredu gyda thargedau "CAMPUS" i gefnogi a gwella'r argymhellion.

O blith y rhai a oedd heb ateb y cwestiwn , dangoswyd rhywfaint o gefnogaeth gyffredinol i'r amcanion. Fodd bynnag, mynegodd un ymatebydd bryder am addasrwydd tystiolaeth sy'n sail i'r asesiadau bregusrwydd.

O'r ymatebwyr hynny a ymatebodd gyda na i'r cwestiwn, ni ddarparwyd unrhyw fanylion pellach.

**Cwestiwn 2. Ydych chi'n cytuno â'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i gynnal yr asesiadau bregusrwydd (yn cynnwys asesiadau sensitifrwydd ac asesiadau cysylltiad)?**

| | Ydw | Nac ydw | Dim Ateb |
|---|---|---|---|
| Nifer | 12 | 3 | 5 |
| Canran | 60% | 15% | 25% |

Roedd ymatebion i'r cwestiwn hwn yn gymysg gyda'r mwyafrif (60%) o blaid. Nododd sawl ymatebydd y tebygrwydd yn y fethodoleg a ddefnyddir yn y Strategaeth hon a Chynllun Cadwraeth ac Adfer Adar Môr Lloegr (ESCaRP) a chytunodd yr ymatebwyr mai dyma'r dull gweithredu cywir i Gymru.

Cytunodd un ymatebydd â'r fethodoleg a cheisiodd fwy o eglurder ar sut y byddai aflonyddu ar adar môr yn cael ei asesu, gan nodi hyn fel pryder. Cytunodd un ymatebydd â'r fethodoleg a cheisiodd fwy o eglurder ar y broses o gynnal asesiad bregusrwydd, gan nodi hyn fel pryder. Cytunodd ymatebydd arall yn rhannol â'r broses asesu bregusrwydd, ond fe wnaethant dynnu sylw at y ffaith nad yw'r broses

yn caniatáu "ar gyfer pa mor agored i niwed y bydd adar môr i newid yn y dyfodol" neu "fygythiadau y tu allan i ddyfroedd Cymru" gan gydnabod cylchoedd oes mudol rhai rhywogaethau sydd wedi'u cynnwys yn y Strategaeth.

O'r ymatebwyr hynny a ymatebodd na i'r cwestiwn (15%), roedd un ymatebydd yn pryderu am sut roedd y sector pysgota yn cael ei gynrychioli yn yr asesiadau sensitifrwydd a gofnodwyd yn y cardiau rhywogaethau sy'n cyd-fynd â'r ddogfen ymgynghori. Amlygwyd pryder pellach gan fod y term 'pysgota' yn cael ei ddefnyddio i gynrychioli pysgota masnachol a physgota hamdden.

O'r ymatebwyr hynny a ymatebodd na i'r cwestiwn (25%), ni ddarparwyd unrhyw wybodaeth bellach.

**Cwestiwn 3: Ydych chi'n cytuno â chyfnod gweithredu'r Strategaeth?**

| | Ydw | Nac ydw | Dim Ateb |
|---|---|---|---|
| Nifer | 8 | 6 | 6 |
| Canran | 40% | 30% | 30% |

Roedd ymatebion i'r cwestiwn hwn yn gymysg heb fwyafrif amlwg, fodd bynnag, roedd 40% yn cytuno â'r cwestiwn hwn.  Yn ogystal â'r rhai a ymatebodd nac ydw, ni fynegodd cyfran sylweddol o'r ymatebwyr farn glir i'r cwestiwn hwn.

O'r rhai a ymatebodd 'ydw' i'r cwestiwn hwn, dywedodd un ymatebydd eu bod yn cytuno â'r cwestiwn, ond hoffent weld "opsiwn adolygiad brys hyblyg". Mae ymatebydd arall hefyd yn cefnogi'r dull arfaethedig o weithredu'r Strategaeth gan nodi "mae'r dull gweithredu yn ymddangos yn synhwyrol ac yn briodol, ac yn cefnogi cyfnod arfaethedig o 10 mlynedd ar gyfer y Strategaeth, i gyd-fynd â chylchoedd adolygu asesiadau morol presennol".

O'r rhai a ddywedodd nac ydw, cytunodd un ymatebydd â rhesymeg y cyfnod gweithredu ond nododd "y dylid cynnal gweithredu'r strategaeth trwy gyfarfodydd gweithgor rheolaidd".

Ni ddarparodd yr ymatebwyr hynny nad oeddent wedi ymateb i'r cwestiwn hwn sylwadau pellach.

**Cwestiwn 4. Ydych chi'n cytuno â'r broses ar gyfer pennu argymhellion?**

| | Ydw | Nac ydw | Dim Ateb |
|---|---|---|---|
| Nifer | 9 | 7 | 4 |
| Canran | 45% | 35% | 20% |

Holltwyd ymatebion i'r cwestiwn hwn rhwng ydw a nac ydw, gyda mwyafrif bach (45%) yn ateb ydw. O'r rhai a atebodd ydw, cytunodd un ymatebydd â'r cynnig, fodd bynnag, maen nhw'n galw am "gefnogaeth dda o ran adnoddau ac ariannu er mwyn sicrhau bod camau gweithredu'n yn cael eu cyflawni'n gyflym". Roedd ymatebydd arall yn cytuno â'r cynnig ar y cyfan, gan alw am "fanylion pellach i esbonio'r broses a ddefnyddir i bennu argymhellion" yn nogfen y Strategaeth.

Ar gyfer yr ymatebwyr hynny a oedd yn anghytuno â'r cynnig, dywedodd un ymatebydd y byddent yn rhoi "blaenoriaeth i amddiffyn palod... a môr-wenoliaid wridog" yn sgil y boblogaeth "yr oedden nhw'n gwybod sydd ar gynnydd yng Nghymru ac i'r un [rhywogaeth] yr oeddent yn gwybod sydd brinnaf yng Nghymru". Roedd ymatebydd arall hefyd yn anghytuno â'r cynigion gan ddweud "nad oes digon o fanylion wedi'u darparu", fodd bynnag, byddent yn "hapus i gydweithio â Llywodraeth Cymru ac eraill" i ddatblygu argymhellion.

Ni adawodd yr ymatebwyr hynny nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno unrhyw sylwadau penodol.

**Cwestiwn 5: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau, ond a oes yna unrhyw faterion eraill yr hoffech eu crybwyll yn y fan hon?**

Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn cwmpasu amrywiaeth o feysydd mewn perthynas â Strategaeth Gwarchod Adar Môr Cymru.

Manteisiodd llawer o ymatebwyr ar y cyfle i groesawu datblygiad y Strategaeth a'r cyfle i ymateb drwy'r ymgynghoriad. Roedd sawl ymateb yn canolbwyntio ar yr argymhellion a/neu gamau gweithredu y cyfeirir atynt yn yr ymgynghoriad ond sy'n cael eu nodi fel cam nesaf. Galwodd yr ymatebwyr am dargedau CAMPUS i ategu’r argymhellion, a phwysleisiwyd pwysigrwydd ffrydiau cyllido hirdymor, pwrpasol i gefnogi'r Strategaeth.

Roedd ymatebwyr yn pwysleisio pwysigrwydd ac yn cytuno â'r modd y mae'r argymhellion o fewn y Strategaeth yn seiliedig ar dystiolaeth. Mynegodd eraill hefyd yr angen am fonitro rheolaidd i fagu hyder yn y sylfaen dystiolaeth.

Roedd rhai ymatebion yn canolbwyntio ar yr angen i'r Strategaeth fod yn hyblyg a bod modd ei haddasu. Mae hyn yn adleisio sylwadau tebyg a godwyd yng Nghwestiwn 3, gan dynnu sylw at yr angen am fecanwaith i ganiatáu i swyddogaethau'r Strategaeth fod yn hyblyg, gan ymateb i argyfyngau a phwysau annisgwyl.

Pwysleisiodd ymatebwyr bod angen i'r Strategaeth integreiddio â chynlluniau a pholisïau eraill ar lefelau rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol, gyda rhai ymatebwyr yn tynnu sylw at ardaloedd mudo a bwydo sy'n golygu mwy o orgyffwrdd ag ardaloedd eraill.

Galwodd rhai ymatebwyr am ymgysylltu â rhanddeiliaid yn effeithiol fel rhan o broses weithredu'r Strategaeth, a ystyrir yn hanfodol i'w llwyddiant, gan ddod ag arbenigedd a gwybodaeth leol ynghyd.

**Cwestiwn 6: Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r strategaeth hon ei chael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?**

***a***

**Cwestiwn 7: Eglurwch hefyd sut yr ydych yn credu y gellid ffurfio'r strategaeth arfaethedig neu ei newid fel y caiff effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac na fydd unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Ymdriniodd ymatebwyr i'r ddau gwestiwn hyn â nifer o themâu yn ymwneud â'r Gymraeg.

Croesawodd rhai ymatebwyr y ffaith bod y Gymraeg wedi'i chynnwys, ei hyrwyddo a'i defnyddio yn y Strategaeth. Tynnwyd sylw at y ffaith ei fod yn bwysig i sicrhau bod yr iaith yn parhau i fod yn allweddol wrth drafod, deall a gwarchod yr amgylchedd morol.

Tynnodd eraill sylw at hunaniaeth ddiwylliannol yr iaith a sut mae'n ymwneud yn agos â'n hamgylchedd naturiol gyda phwyslais ar gymunedau arfordirol. Roedd rhai sylwadau yn ymwneud â'r angen i gysylltu'r Strategaeth hon â Y Môr a Ni sef Strategaeth Llythrennedd Morol Cymru.

Tynnodd yr ymatebwyr sylw at bwysigrwydd cynnwys y Gymraeg mewn cyd-destun gwyddonol a pholisi er mwyn cyfoethogi'r iaith a'i defnydd.

## Ymateb y Llywodraeth a'r camau nesaf

Rydym yn croesawu pob ymateb a wnaed i'r ymgynghoriad hwn. At ei gilydd , rydym yn derbyn bod y rhan fwyaf o'r ymatebion yn gyffredinol o blaid y Strategaeth a'i bwriadau, fodd bynnag, rydym yn cydnabod rhai pryderon penodol iawn a godwyd gan rai ymatebwyr.

I'r perwyl hwnnw, rydym wedi gwneud rhai mân newidiadau i eiriad y Strategaeth i gryfhau ac egluro rhai meysydd ymhellach a godwyd gan rai ymatebwyr. Gweler crynodeb o'r newidiadau hynny isod:

Rydym wedi ychwanegu rhywfaint o fanylion ychwanegol i egluro sut y cynhaliwyd yr asesiadau bregusrwydd ac yn cydnabod y gallai cyhoeddi'r asesiadau sensitifrwydd yn yr ymgynghoriad hwn heb yr asesiadau cysylltiad llawn fod wedi achosi rhywfaint o ddryswch.

Rydym hefyd wedi ychwanegu rhagor o fanylion ar sut y byddwn yn nodi ein hargymhellion ar ôl cwblhau'r asesiadau bregusrwydd.

Yn ogystal â chyhoeddi'r ymateb hwn gan y Llywodraeth, bydd Llywodraeth Cymru nawr yn cyhoeddi Strategaeth Gwarchod Adar Môr Cymru yn ffurfiol a bydd hefyd yn cyhoeddi'r iteriad cyntaf o argymhellion, gyda chamau gweithredu cysylltiedig. Bydd manylion ar sut y penderfynwyd ar yr argymhellion yn cael eu cynnwys fel atodiad i'r Strategaeth.

Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i bawb a roddodd o'u hamser i ymateb i'r ymgynghoriad